Datganiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Taith

Yn Taith, rydym wedi ymrwymo'n ddwfn i feithrin diwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r egwyddorion hyn wrth galon ein gwerthoedd craidd, gan lywio ein llwyddiant fel rhaglen gyfnewid rhyngwladol gynhwysol. Rydym yn ymdrechu i greu amgylchedd diogel, cadarnhaol, a chefnogol ar gyfer yr holl gyfranogwyr, sefydliadau sy'n Derbyn Grant, ymgeiswyr, aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor, partneriaid a staff, gan sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod wedi'u grymuso, eu parchu, a'u gwerthfawrogi.

Ein nod yw meithrin amgylchedd lle mae cyfleoedd yn agored i bawb, mae amrywiaeth yn cael ei ddathlu, a gall pob unigolyn gyrraedd ei lawn botensial heb ofni aflonyddu, rhagfarn na gwahaniaethu. Mae pob aelod o gymuned Taith yn rhannu'r cyfrifoldeb i greu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle gall pawb fod yn ddilys iddyn nhw eu hunain.

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod gan bawb y cyfle i gymryd rhan mewn cyfnewid rhyngwladol, waeth beth fo'u hoedran, gallu, hunaniaeth rhywedd, hil, cenedligrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, gwerthoedd, credoau, statws economaidd-gymdeithasol, neu unrhyw nodwedd bersonol arall. Rydym yn credu'n gryf mewn pwysigrwydd cwrteisi a pharch fel sylfaen amgylchedd cynhwysol.

Mae Taith wedi ymrwymo i fod yn ystyriol o'r iaith a ddefnyddiwn. Rydym yn deall pwysigrwydd bod yn agored i drafodaethau a deialogau er mwyn deall goblygiadau'r termau a ddefnyddiwn yn well.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae Taith yn cynnal y safonau uchaf o degwch a thriniaeth gyfartal, gan sicrhau na chaiff unrhyw unigolyn ei drin yn llai ffafriol ar sail Nodwedd Warchodedig. Rydym wedi ymrwymo i atal unrhyw fath o wahaniaethu, bwlio neu aflonyddu anghyfreithlon neu annheg.

Y Nodweddion Gwarchodedig a gydnabyddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw: Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd neu Gred, Rhyw, a Chyfeiriadedd Rhywiol. Mae Taith yn condemnio'n ddiamwys unrhyw weithredoedd o fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu, boed yn seiliedig ar Nodwedd Warchodedig neu unrhyw ffactor arall.